# DINESYDD

## RHAGFYR/IONAWR

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1982 - 83

RHIF 92


# CRACYRS!

Rhyfedd fel mae'r hyn a ddisgwyliwn o arwr yn newid os yw'r arwr ar ein haelwyd ni ein hunain. Dyna ichi agwedd Thatcher at arweinydd undeb, er enghraifft. Mae dyn o'r fath yng Ngwlad Pwyl yn amddiffynnwr rhyddid, yn ymladdwr glew dros hawliau dynol ac yn arwr o'r iawn ryw. Prin fod ei hagwedd mor hynaws tuag at ddyn yn yr un safle yn ei gwlad ei hun. Ym Mhrydain, fe wêl arweinydd undeb yn greadur hunandybus a gwrth-gymdeithasol.

Diddorol fu sylwi'n ddiweddar ar benderfyniad y brifddinas i anrhydeddu rhai a fu'n brwydro yn erbyn y gyfundrefn yn Ne Affrica, trwy enwi strydoedd newydd ar eu hôl. Mae enwi strydoedd ar ôl pobl, wrth gwrs, yn hen arfer digon cyffredin, ond arwyr lleol neu genedlaethol a gofir fel hyn fel arfer, nid tramorwyr nad oes ganddynt gysylltiad o gwbl â Chaerdydd na Chymru. Nid fod dim o'i le ar y dewis. Ond dylid nodi'r ffaith fod eithafwr yn fwy o arwr, fel arfer, pan fo'n byw a marw mewn gwlad bell.

I fod yn deg, fe grybwyllodd un cynghorydd Llafur y gellid cofio am rai fu farw ym mrwydro Gogledd Iwerddon mewn modd tebyg. Ond onid oedd hwnnw hefyd yn fyr o'r nod?

Pryd tybed y gwelwn ni'r cyngor yn argymell yr enwau 'Ffred Ffransis Avenue' a 'D.J. Drive'? A phryd - ac mae hyn yn fwy perthnasol - y gwêl Penarth ei ffordd yn glir i enwi stryd ar ôl ein prif ddramodydd? Rhywbryd yn y Gymru fydd!

***********

Diolch byth nad oedd pleidlais ar agor y tafarndai ar y Sul yng Nghaerdydd. Bu'r holl ddadlau, o'r ddwy ochr, yn ddiflas ac yn drist. Diau fod Dafydd Ellis Thomas yn iawn pan ddywed nad oedd y cyfan yn bwysig. Eto i gyd, gyda chymaint o ardaloedd wedi troi'n wlyb mae rhyw hynodrwydd anrhesymegol, nodweddiadol Gymreig wedi mynd am byth. Serch hynny, rhaid cofio nad oedd y traddodiad hwn ond rhyw ganrif oed. Tebyg iawn i'r Orsedd. Ac ni fynnem weld dyfodol honno ychwaith yn cael ei benderfynu er budd twristiaeth.


Trannoeth y dewis mawr (a hithau'n noson cofio Guto Ffowc) roedd y Parch T.J. Davies ar y rhaglen Rhoi'r Byd yn ei Le yn dweud y byddai'n cau pob tafarn yfory nesaf pe medrai. Yna gwadodd yn chwyrn ei fod yn eithafwr. Wel! Byddai'r Ayatollah yn gwadu yr un modd, mae'n siwr. A Scargill. A Walesa.

Gyda'i ymroddiad diflino a'i ddidwylledd diarhebol nid oedd angen iddo fod ag ofn y gair. Mae rhai eithafwyr yn arwyr. Ac mae rhai o'r rheini'n cael eu cofio mewn ffordd go od. Enwau strydoedd, coelcerthi, y Nadolig ac ati!

# AMBAREL - CRACAR O LYFR!

Llyfr lliwgar ac amrywiol ardderchog i blant rhwng 8 a 12 oed. Mae'r llyfr yn dal perthynas agos â'r Dinesydd gan fod pedwar o'r pump a fu'n gyfrifol am ei lunio ymhlith y criw bychan a fu neu a sydd yn cynhyrchu'r papur hwn.

Posau, hanesion difyr a chyffrous, triciau, gwennol y gofod, cartwnau, storiau, caneuon a chantorion pop. Dyna syniad o gynnwys y llyfr deniadol hwn. Fe welwch rhai o gymeriadau y llyfr yma. Y cyhoeddwyr yw Gwasg Cambria a'r pris yw £2.50.



NEWYDDION CLWB CYMRIC

Mae'r tîm cyntaf yn mynd o nerth i nerth a bellach wedi mynd am chwe gêm heb golli. Gêm gyfartal, un gôl yr un yn erbyn Sblott Albion ar Hydref 23ain, a Wyn yn sgorio ym munudau olaf y gêm i sicrhau pwynt. Gêm gyfartal ddi-sgôr yn erbyn Fitzalan O.B. wythnos yn ddiweddarach, ac yna buddugoliaeth orau'r tymor, o 3-2 yn erbyn Roath Labour ar Dachwedd y 6ed. Roedd blaenwyr ifanc addawol yn rhedeg i bob cwr o'r maes gan greu trafferthion lu i'r gwrthwynebwyr, a sgoriodd Haydn a Huw P. goliau gwych, er rhaid cyfaddef mai o droed yr hen ben Ken Passmore y daeth yr orau - ergyd o rhyw ddeunaw llath i gongl y rhwyd. Cafwyd perfformiadau penigamp gan Garmon a Huw Eurig, y ddau yn chwarae eu gemau llawn cyntaf i'r tîm cyntaf.

Cafwyd buddugoliaeth dda dros Waelod y Garth y Sadwrn canlynol, gêm gwpan a'r sgôr yn 3-1 gydag Elwyn Roberts, Huw P. a Huw Eurig yn sgorio. Ar Dachwedd 20fed, gêm gyfartal yn erbyn Grange FC, 4-4 gydag Elwyn Roberts 2, Huw P. a Garmon yn sicrhau'r un pwynt. Trueni i Rheon fethu â chic o'r smotyn gwyn, mae'n debyg fod ei feddwl yn crwydro tua 'Mothercare'

Ychydig yn llai llewyrchus ydi pethau i'r Ail Dîm, a dal i ddisgwyl y mae pawb am fuddugoliaeth gynta'r tymor. Ar Hydref 30ain, yn erbyn y Toriaid, colli o 6-2, a'r unig nodyn o obaith ydoedd dwy gôl wych gan Cen Cartŵn, mae hwn megis potel o wîn yn gwella gyda'r blynyddoedd!

Colli yn anffodus o 1-0 yn erbyn Wells United yr wythnos wedyn, ac yna o 4-2 yn erbyn Woodville Hotel gyda Gareth 'Ser' a Cen unwaith yn rhagor yn rhwydo. Roedd y perfformiad yma yn un calonogol dros ben, ond er yr ymdrech deg yn ystod y naw deg munud, ni chafwyd dim lwc. Dydd Sadwrn, 20fed o Dachwedd, colli o 6-1 yn erbyn Grange Boys Club, canlyniad nad yw'n gwneud daioni â'r chwarae, ond, goliau wedi'r cyfan sy'n ennill gemau. Rhodri a sgoriodd yr unig gôl.

Tybed a ddaw tro ar fyd cyn y Nadolig - cawn weld, ond mae perfformiadau addawol chwaraewyr ifanc megis Huw Edwards a Melfyn yn argoeli'n dda. Croeso hefyd i 'Crwbin' yn y gôl.

Cofiwch am yr ymarfer o 6.00 hyd 7.30, nos Fawrth yn Ysgol Glantaf.

EGLWYS DEWI SANT

C Y N G E R D D

N A D O L I G

NOS WENER, 17 RHAGFYR

am 7.30 o'r gloch

Plant Ysgolion Melin Gruffydd, Y Wern, Bryntaf; Carys Williams; Tannau Taf; Aled a Menna Gwyn.
Arweinydd: Alun Davies
Tocynnau: £1.50
Dan nawdd Ysgol Feithrin y Waun.

# Y CALENDR

**Rhagfyr**

6 Merched y Wawr, Festri Minny Street, 7.30, Rhagflasu'r Nadolig.

7 Parti Nadolig; Cymdeithas y Dysgwyr, Clwb y Rec, Lôn Uchaf, Rhiwbeina, 8-12 p.m. Lluniaeth, Disgo, Bar, Tocyn: £2

7 Ysgol y Wern, Gwasanaeth Nadolig yn Eglwys y Plwyf, Llanishen, 7 p.m.

8 'Dewch i'r Gwynfyd' gyda Aled a Menna Gwyn yn Festri Crwys am 7.30.

8 Cymdeithas y Dysgwyr Tŷ'r Cymry, 11 Gordon Road; Parti Nadolig; 8 p.m.

9 Merched y Wawr Gwent; Ystafell 149 y Ganolfan Ddinesig, 7.30 p.m. Trefnu Blodau Nadolig.

10 C.C.C.C., YR HWNTWS, Gwesty'r Great Western, 8 tan 12 - bar hwyr - Hanner yr elw i Gronfa'r Dinesydd.

10 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Penlline Rd., am 7.30. Dathlu'r Nadolig yng ngofal Mr. John Ewart Jones.

11 Ysgol Coed y Gof Gwasanaeth Nadolig

17 Cyngerdd Nadolig yn Eglwys Dewi Sant gyda phlant ysgolion Melin Gruffydd, Y Wern a Bryntaf; Carys Williams; Tannau Taf; Aled a Menna Gwyn;
Arweinydd: Alun Davies
Tocynnau: £1.50 ; 7.30;
Dan nawdd Ysgol Feithrin y Waun.

18 Côr Philharmonic Caerdydd, Neuadd y Brifysgol, Corbett Rd. Perfformiad o Brahms Requiem gyda Jennifer Rhys-Davies Soprano, a Gareth Rhys-Davies, Bariton.
Arweinydd: Alun Guy
Organydd: Robert Court

18 Ysgol Melin Gruffydd. Bore Coffi yn yr ysgol. 10.00 ymlaen. Bandiau Melin Gruffydd yn difyrru

**Ionawr**

8 Parti Nos Ystwyll Neuadd Goffa Rhiwbeina; 8 p.m. Tocynnau: £2; Yr elw i Gronfa'r Dinesydd.

12 Cymdeithas y Dysgwyr Tŷ'r Cymry; 8.00; Siaradwr: Colin Lake.

13 Merched y Wawr Gwent; Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd; 7.30; Croesi'r Atlantic - Mrs. Bronwen Green.

14 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Penlline Rd., am 7.30; Noson yng ngofal yr aelodau - 'Pethau Diddorol'.

13 Merched y Wawr Y Garth, Neuadd y Pentref, Pentyrch, 8.00; P.M.S. - Sgwrs gan y Dr. Dafydd Huws.

28 Noson Santes Dwynwen, gyda Gari Williams, Neuadd Ysgol Radur, 8 p.m. Dan nawdd Ysgol Feithrin Radur.

**Chwefror**

11 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Penlline Rd. am 7.30. Mrs. Beti Wyn Davies.

**Mawrth**

11 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Penlline Rd. am 7.30, Dathlu Gŵyl Ddewi. Gŵr Gwadd: Dr. Elwyn Hughes.

# GŴYL CERDD PANT CYMRU

# DYFFRYN CONWY 1982

Yr Arcadia Llandudno - lle mae'r fan honno meddwn i - mi wn i am M & S, Marie et Cie, Sanbach a Ball and Boyd - a dyna ydi Llandudno i bobol Felinheli, lle i brynu - dillad isa, dillad Cymanfa, byta ag ambell i sêl gwell na'i gilydd. Deud y gwir doedd dim rhaid gofyn i Dewi Jones (Ysgrifennydd yr Wyl) ble roedd yr Arcadia gan fod y mynegbyst melyn AA yno yn barod ganol pnawn Gwener, Tachwedd 19eg.

Mi wawriodd bore Sadwrn yr ugeinfed yn debyg iawn i'r flwyddyn cynt - yn ddiwrnod Hydrefol - ond tydi Hydrefu yn ymyl y môr ddim cweit 'run fath a Hydrefu yn y wlad - neu'r ddinas pan fydd hi'n ddinas goediog fel Caerdydd.

Braf oedd gweld wrth gael cinio cynnar mewn gwesty ar lan y môr yr holl geir a'r rhifau GNY; STX; DNE; KTG; - rhai yn llawn plant, rhai yn llawn telyn. Mae nhw'n deud i mi bod merched M&S Llandudno wedi gofyn yn arbennig am wersi 'Cymraeg y Sowth' ar ôl y bore sydd dan sylw.

I gneud hi am y rhagbrofion wnes i gyntaf (wedi clywed yr arbenigwyr y noson cynt yn canmol gymaint - a minnau mor las ym myd Cerdd Dant, dim ond un Pwyllgor sydd y chi ers dwi wrthi!) Erbyn i mi gyrraedd neuadd fawr Ysgol John Bright roedd y lle yn orlawn - pawb yn anelu at ryw ragbrawf neu gilydd ond mi roedd gen i amser i sefyllian a sgwrsio - rhyfeddu rown i at y bobol o'n i'n nabod yno - doeddwn i ddim yn sylweddoli bod ardal yr Wyl mor eang - Alwena Williams, Golygydd y Wawr yn edrych mor ffresh ag arfer yn rhuthro i rhywle; Robin Jams Jones y dyn 'smwdd' ag ydio yn hympio ryw delyn, Ruth i chwaer o yng ngofal y cwbwl.

Fy nôd i oedd clywed rhagbrofion yr Unawd Cerdd Dant dros hanner cant - "mae'n sbort ysti" meddai Rhian Jones (Blodau'r Eithin, Enillwyr y Côr Cerdd Dant - i mi gael deud).

Roedd 'na bump yn cystadlu pedwar dyn a Katie Wyn o Landwrog. Mi 'steddis i hefo Robin (gŵr Ruth) a'r hogiau, yn y cefn a braf oedd eistedd hefo hogyn yn sêt gefn y dosbarth unwaith eto. Mi roedd y dosbarth yn llawn a Lisa Erfyl (y Beirniad) fel blodyn yn ein mysg.

Welis i 'rioed ffashiwn berfformans yn fy myw - roedd pob cystadleuydd yn unigolyn ac wedi gwneud hyn o'r blaen ond yn mynd trwy'r broses i gyd unwaith eto er fy mwyn i. Pnawn i'w gofio.

Mi gawsom Y Lloer, Y Clochydd (Percy Hughes), Cerdd Goffa Caradog Pugh (Jâms Nicolas), Y Ferch a Lithrodd ar balmant y Dref ac emyn Ymgysegriad (Elfed) - dyma i chi wledd.
Ond roswch, mi welodd y Beirniad yn dda i lwyfanu'r pump y noson honno - dynas gall mae hi'n gwbod be sy'n gwneud 'perfformiad'.
Mi ath y cystadlu nos Sadwrn ymlaen tan wedi un y bore ac fe dorrodd y tywydd - ond beth ydi'r ots, fe fu'n ddiwrnod da - o ia Aberystwyth fyddwn i'r flwyddyn nesa; cyfle i mi fod yn brentis eto.

Ruth Parry




Ond yn awr at ein poëtau ni ein hunain. Mae'n dda gennyf ddweud bod William Davies, y cawsom weld ei waith yn y golofn o'r blaen, wedi gwella'n dda ar ôl ei salwch diweddar. Erbyn hyn symudodd Mrs. Davies ac yntau yn nes at y mab (Huw Davies HTV) a dymunwn iddynt bob hwyl ar yr aelwyd newydd. Dewisodd odl anodd i'w gweithio yn yr englyn hwn ond llwyddodd er hynny.

Y BABAN IESU

Od o em i fyd o ing, a rhuddem
Yn rhodd i bob cwling.
Arian byw yn rhannu bing,
A pherl i fyd di-ffyrling.

William Davies

A dyma englyn tymhorol a thrawiadol arall:

CADW'R WYL (Mewn Siop Degannau)

Gŵyl y Geni, gwêl y gynnau'n bygwth
Bugail y cadachau.
Ond dos liw nos y nosau
Trosto Ef i ladd tristau.

Gilbert Ruddock

Mae Gilbert, yn ei lythyr ataf, yn dweud bod llunio'r englyn wedi gwneud lles iddo. 'Does dim dwywaith fod gweithio englynion yn ddisgyblaeth lesol iawn. Pwy ŵyr na chawn ni, englynwyr, weld ein cant fel Isnant yntau?

I gloi'r golofn y tro hwn mae Einir a'r plant a minnau am ddymuno pob bendith ar yr holl ddarllenwyr dros yr Wyl. Cofiwch anfon eich cerddi ataf yn fuan iawn. Y cyfeiriad yw 'Penmaen', 31, Heol Don, Yr Eglwysnewydd.

## CALON LÂN




**Da gan Philip Morgan a'i Fab, Cyf., allu dweud bod erbyn hyn ddau win bord 'Calon Lân'. Cyfuniad o winoedd Ewropëaidd wedi'i botelu yn yr Almaen ac o naws tebyg i Mosel yw'r 'Calon Lân' gwyn, a fu ar y farchnad ers blwyddyn a mwy. Cynnyrch Ffrainc yw'r 'Calon Lân' coch sydd newydd ddod ar y farchnad. Prif bwrpas cyflwyno'r gwinoedd hyn wedi'u labelu yn Gymraeg yw rhoi boddhad i'r bobl hynny y mae hi'n iaith gyntaf iddynt neu sy'n gyfarwydd â hi. Pris manwerth potelaid 70 centilitren o'r naill neu'r llall yw tua £2.25.**

## MYFANWY




**Gwin newydd arall â label Cymraeg arno ar restr Philip Morgan a'i Fab yw 'Myfanwy', gwin sych byrlymus a ddaw o Ffrainc. Pris manwerth potelaid 75 centilitren o'r gwin hwn fydd tua £3.25.**

**Ar gael oddiwrth werthwr gwin cyfagos. Am eich gwerthwyr agosaf, cysylltwch â Phillip Morgan a'r Fab (tel. isod)**

**Philip Morgan a'i Fab Cyf., (sef. 1929)**
Prif Farsiandiwr Gwin Caerdydd
126, Wyndham Crescent, Caerdydd, Teleffon 31570


**FRANKLIN'S**

***POBYDDION, 160 Heol Ddwyreiniol y Bontfaen, Treganna. Tel 29861***

**Bara, Teisennau, Cacenni, Peis, Pasteiod Ffrwythau, Pasteiod Cernyw, Pasteiod cig. Pob math o fwydydd ffres o'r ffwrn bod dydd.**

**GWALIA TRAVEL SERVICES LTD**

**98 Heol Ddwyreiniol y Bontfaen, Treganna**
**Tel 45550/28834**
**101 Heol Caerffili, Caerdydd**
**Tel 617228/9**

***Gwyliau a Theithiau byd-eang***
***Cynigion arbennig***

**DAVID HARBOURNE**
**Llyfrau**
**44, Bishops Walk,**
**Llandaff, Caerdydd.**
**RHIF FFON : 561154**

**ANRHEGION NADOLIG**


Y mae gennyf gartref stociau mawr o lyfrau sydd allan o brint o ddiddordebau Cymreig, Gwyddelig a Chelt-aidd yn gyffredinol. Y cyntaf ar y rhestr yw Geir-iadur John Davies Mallwyd, Lladin-Cymraeg, 1632, ac felly ymlaen hyd at heddiw. Prynwch Lyfrau Gwasg Greg-ynog, Gwasg y Golden Cockerel, Clasuron Cymru, a'u rhoi fel anrhegion i'ch teulu a'ch cyfeillion.

# HOSAN Y DINESYDD
# (ATODIAD NADOLIG)

Dyma nifer o'eiriau am y Nadolig ond fel y gwelwch mae eu llythrennau yn y drefn anghywir. Ail osodwch y llythrennau.

| | | |
|---|---|---|
| NMOEILSY | NSREE | LBIUAG |
| NLISO | RCLCAE | LCUYCHA |
| NSOI NCRO | DGDYW | LHYW |
| NPIWD | NHAOS | ECHRAAW |
| NRHAONIEG | NCEODE | |
| UAADDRNUDAI | ITCRW | |

SGWIGL



Mae geiriau'r Garol isod gan Meredydd Evans. Mae'r gerddoriaeth (a welir ar y tudalennau canol) gan Arwel Hughes. Diolch am dalent a chymwynasgarwch y ddau.

Gorfoleddед nef a daear,
Dyma Wyl y Golau claear;
Awn o fargod ein cysgodion
I fro heulog anfarwolion.

Daeth llafurwyr gynt at breseb
A daeth yno dras doethineb.
Daeth y creaduriaid hwythau
At y bach yn ei gadachau.

Awn o'r gwastad ac o'r bryniau
Awn o'r ddinas ac o'r caeau,
Dyma Ffordd i'r gwan ei galon
Ffoi yn glir o dir pryderon.


Heddiw yfwn o'r Winwydden
A bwytawn o'r Bara'n llawen.
Huliwn fwrdd y cymun, di-ddig;
Canwn deulu y Nadolig.

Canwn glychau yn soniarus,
Dawnsiwn a charoli'n nwyfus,
Uchel seiniwn yr hosanna
Uchel seiniwn yr hosanna
I'r hwn anwyd o Faria.


NADOLIG CYMREIG YNG NGHANOL Y DDINAS

Y Cwbwl dan yr un to

Llyfrau Cardiau Recordiau Calendrau




Oriel
53 Heol Siarl,
Caerdydd.
ffôn 395548

## COLOFN
## Shân Emlyn

Gŵyl y Geni, Gŵyl y Baban, dyna yw'r Nadolig er nad hawdd cofio hynny drwy'r amser. Gall amynedd fod yn brin yr adeg yma pan fo pawb yn rhuthro a chythru yn y siopa. Pob mam a gwraig tŷ jest a drysu ar brydiau yng nghanol y cardiau, y papur Dolig, y siswrn sy' gan amla ar goll, y trimins, y mins peis a'r stwffin! Mwy o lanast nag arfer ym mhob cartra. Ac eto edrychwn ymlaen o flwyddyn i flwyddyn at y Nadolig, gan addunedu'n flynyddol y bydd raid cael gwell trefn y tro nesa. Ofer yr addunedu a rhaid derbyn bod y sgrealu yn rhan o gyrraedd rhyw uchafbwynt fora Dolig.

Eleni byddwn ni yn treulio'n Nadolig cynta yn ein catra newydd - ble mae'r goeden i fod, a oes plwg cyfleus i'r goleuadau, sut a phle y caiff y cardiau Dolig eu gosod? Dyma'r Nadolig cynta i'r gennod ddychwelyd i'r nyth o'u hanibyniaeth newydd. Dyma Nadolig cynta S4C - popeth yn newydd a chyfle i osod seiliau Nadoligau'r dyfodol.

Ond yn fwy na'r pethau yma i gyd, mae cyffro newydd a mwy o lawenydd nag arfer yn ein teulu ni eleni. Mae mwy o arwyddocad i Ŵyl y Geni. Daeth baban bach i'r teulu - bwndal bach diniwed nad yw'n sylweddoli y llawenydd y mae eisioes wedi'i roi i'w rhieni, i'w modrybedd a'i hewythrod ac i'w chyfnitherod yng Nghaerdydd a Phwllheli. Pleser oedd ychwanegu enw arall ar restr presanta Dolig tŷ ni.

I'n teulu ni, ia Gŵyl y Geni, ia, Gŵyl y Baban ond eleni Dolig cynta Lowri Angharad Emlyn yw hi.

## BYD Y BOL

Wilheim Tell, North Road

Mae angen mwy o gig ar fy adroddiad y mis hwn, yn ôl y golygydd. Ond mi fydd yn rhaid iddo fod yn fodlon ar gaws mae arna i ofn. (Protîn ydy protîn, yn ôl Eirwen Gwynn yn Y Faner). Fondue yw arbenigrwydd y tŷ bwyta hwn a ysbrydolwyd, fel mae ei enw'n awgrymu, gan y Swistir. I ddweud y gwir wrthych chi, doeddwn i ddim yn siwr beth oedd fondue. Pan oedd Bruce Forsyth yn arfer sôn am fondue set ar y Generation Game, rown i'n arfer meddwl mai gêm oedd e!

Un o'r pethe hyfryd ynglŷn â'r lle hwn yw nad oes raid ichi fod ag ofn dangos eich anwybodaeth. Mae cael gwasanaeth da yn gwneud y byd o wahaniaeth. Nid oedd y gŵr ifanc a waenai arnom yma yn or-ffysi nac yn or-ffurfiol. Bod yn gyfeillgar a defnyddiol oedd ei nod - a phwy all ofyn am fwy na hynny o ŵr ifanc, ynte?

Roedd y fondue, ar ôl cael sgwrs addysgol am ei gynnwys, yn fendigedig. Os rhywbeth, roedd fymryn yn rhy boeth ar y dechrau, ond gan fod hamddena uwch ei ben yn rhan o'r hwyl, mae'n debyg fod ei gael i gadw ei wres yn rhan o'r gyfrinach.

I'r rhai ohonoch sy'n llai soffistigedig na fi, caws yw craidd y pryd hwn. Ond wna i ddim ymhelaethu. Ewch i flasu trosoch eich hun. Gyda llaw, er mai fondue yw eu harbenigrwydd, mae bwydlen â rhywbeth at ddant pawb arni ganddyn nhw - gyda gogwydd bendant at y Cyfandirol.

Ychydig iawn o le sydd yno i ddweud y gwir, ond drwy gynllunio gofalus ar wahanol lefelau, maen nhw wedi llwyddo i greu lle o gymeriad clos, ac mae'r ymgais i greu cwt Alpaidd yn hwyl os nad yw'n ddim arall.

I orffen, fe ges i sorbet - un â vodka ynddo. (Roedd Breshnef newydd farw yr wythnos honno). Ardderchog. Roedd y pryd uchod i ddau yn llai na £16 - ac fe gas e ei dalu o boced y gŵr, gyda llaw - nid o goffrau tlawd Y Dinesydd! Fe wn i fod amryw ohonoch chi wedi bod yn meddwl! Tan y flwyddyn newydd, llond bol o bethe da i bob un ohonoch chi.

Doris Griffiths

CYSTADLEUAETH I'R DYSGWR

Gorffennwch y paragraff - Gwobr Tocyn Llyfrau

.......ydw i. Rydw i'n ..... oed ac yn byw yn ..... ...... Rydw i'n dysgu Cymraeg yn ...... ..... ydy fy athro ac rydw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers ........... Rydw i'n dysgu am ...... .................... .................... Rydw i'n hoffi ......... .................... ...........ydy prifddinas Cymru ac mae tua ....... o bobl yn byw yma. Mae'r .................... yn Parc Cathays. Mae'r Amgueddfa Werin yn ...... .................... Mae tîm rygbi Cymru yn chwarae ar ............. .............yng Nghaerdydd. Mae'n well gen i ............ na rygbi. Gêm ...........ydy rygbi ac mae pobl yn ......... ei gilydd ac yn ......... yn aml iawn. Papur ........ ydy'r Dinesydd ac yn llawn o ....................

(Wel os ydych chi wedi llwyddo i orffen y paragraff - anfonwch e yn syth at John Albert - bydd gwobr - llyfr, Chwedlau Gwerin Cymraeg i Ddysgwyr. Brysiwch a'ch atebion. Cofiwch roi eich enw a ble rydych chi'n dysgu).


John Albert,
6 Ridgeway, Llysfaen,
Caerdydd (Tel. 754559)


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU

Ar Agor
10.00— 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530






# DINESYDD Y PLANT

## NADOLIG LLAWEN

Nadolig, hwrê!
Yr orau o bob gŵyl,
Digon o hwyl!
Clecars, hosannau,
Taffi, teganau,
Amryw gacennau
A melys deisennau,
Orennau, afalau,
Llwythi o bethau,
Pob math o ffrwythau
A lot o rubannau
O bob math o liwiau,
Digon o chwarae.
Gŵydd dew a stwffin,
Bowlenaid o bwdin,
Brigau o gelyn,
Sain cân a thelyn,
Gwych, onidê, yw ffenestri y dre?
Nadolig, Nadolig, hŵre, hŵre!

ANHYSBYS. o "BARDDONIAETH Y PLANT."




Diolch i D.O. ac A. Saer

Cnoc Cnoc
Pwy sy'n'na?
Cerith
Cerith pwy?
Cerith wely nawr y cnaf bach.
Diolch i D.O. ac A. Saer.

Mae'r geiriau yma ar goll o fewn y patrwm o lythrennau. Chwiliwch amdanynt, a rhowch linell drwy bob gair sy'n dod i'r amlwg.

Cnoc Cnoc.
Pwy sy'n'na?
Ifan
Ifan pwy?
I Fangor mae trip yr ysgol Sul yn mynd eleni.

| | |
|---|---|
| Nadolig | losin |
| seren | addurniadau |
| celyn | eira |
| hosan | cnau |
| coeden | twrci |
| teisen | carolau |
| balŵn | tegan |
| clecar | afal |
| pwdin | oren |
| hwyl | gwydd |


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a | c | a | n | y | l | a | f | a | t | f | i |
| dd | b | e | h | i | t | o | w | t | e | n | g |
| u | g | dd | s | o | d | n | s | e | g | o | w |
| r | n | e | r | e | s | w | m | i | a | r | y |
| n | b | a | l | w | n | a | p | s | n | e | dd |
| i | t | o | d | p | c | dd | n | e | o | n | e |
| a | w | r | c | o | e | d | e | n | b | h | c |
| d | r | a | c | e | l | c | n | a | u | w | a |
| a | c | f | g | i | y | i | h | dd | a | y | t |
| u | i | m | i | r | n | o | g | o | e | l | p |
| b | c | d | c | a | r | o | l | a | u | s | r |

## A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Geiriau - Meredydd Evans

AFALLON - CAROL NADOLIG

# AFALLON - CAR



## AFALLON - CAROL NADOLIG

# Miwsig - Arwel Hughes

# ROL NADOLIG



## MEDDYLIAU AM Y NADOLIG

Erbyn hyn, cyrhaeddais oedran lle mae pob Nadolig yn debyg iawn i'r llall - amser da! Mae'r hen hud a barodd am rhyw bymtheg mlynedd wedi hen drengu, ond mae fy ngwerthfawrogiad yn parhau.

Yr hyn sy'n fy nharo fwy-fwy gyda threigl amser yw fod rhyw fath o 'ddathlu' cyffredinol yn beth hynod braf, er na wn i beth fydda i a llawer o'm ffrindiau yn ei ddathlu. Mae'n siwr mai cerydd a gynigir i ni gan y ffug-grefyddol am ein rhagrith di-gydwybod, ond onid oes yna le i fwynhad beth bynnag yw'r achos, oni fynegir malais neu ddrwg-deimlad? Fy ngobaith innau yw gweld yr Ŵyl yn parhau, hyd yn oed os daw diwedd ar y grefydd sy'n gyfrifol am yr Ŵyl bresennol. Gall crefydd ysbrydoli cariad a chasineb ill dau, ac mae'r Nadolig (a gwyliau hafal mewn credoau estron) ymysg y pethau da sydd wedi goroesi ymhob math o grefydd, gan ei bod yn rhoi pleser byd-eang. Beth all fod yn well na hyn.

Dafydd Saer.

Tua dechrau mis Tachwedd y mae gwefr y Nadolig yn dechrau gafael ynof i. Erbyn hynny mae'r siopau wrthi'n brysur yn addurno'u ffenestri a phawb yn dechrau ar eu paratoadau.

Pan gerddaf i lawr y stryd fawr yng Nghaerdydd teimlaf gyffro a rhyw gynhenrwydd yn fy nhu mewn wrth weld lliwiau llachar y coed gwyrdd yn erbyn coch y nwyddau, a'r tinsel arian yn rhoi disgleirdeb ar y cyfan. Erbyn dechrau mis Rhagfyr bydd y coed Nadolig wedi'u codi y tu allan yn y dref a chaf bleser o'u gweld wedi eu goleuo am y tro cyntaf. Mae hapusrwydd a golau'r siopau yn gwneud imi anghofio'n llwyr am y tywydd glawog, tywyll, sydd o'm cwmpas.

Ym mis Tachwedd bydd mam yn dechrau prynu anrhegion Nadolig a byddaf wrth fy modd yn edrych ar y trugareddau sydd yn ei bag. Wedi eu pacio mewn papur lliwgar, disglair, byddant yn edrych yn harddach fyth. Hoffaf y teimlad fod y Nadolig yn amser i fod yn hapus ac i roi. Byddaf wrth fy modd yn mynd i chwilio am anrhegion i'm teulu a'm ffrindiau ac yn eu rhoi iddynt ar ddydd Nadolig. Byddaf wrth fy modd yn agor fy anrhegion innau hefyd. Wedi dyddiau o geisio dyfalu beth sydd yn y parsel lliwgar o dan y goeden, codaf ben bore dddydd Nadolig i'w hagor.

Mae rhyw naws a chynhesrwydd arbennig i bopeth yn ystod cyfnod y Nadolig. Pan welaf fy ngheffyl yn gorwedd yn ei

stabl, ac mae clywed
y partion

stabl glyd yng nghanol y gwair, a'r tywyllwch y tu allan, mae'n fy atgoffa o'r Iesu yn ei stabl, ac mae clywed y partion canu carolau a'r bandiau pres yng nghanol disgleirdeb y dref yn rhoi rhyw wefr arbennig imi.

Mae'r cardiau Nadolig sydd o gwmpas y tŷ yn rhan bwysig o'r Nadolig i mi hefyd. Hoffaf y lluniau tlws sydd arnynt - lluniau o'r baban yn ei grud, lluniau o'r bugeiliaid a'r doethion a'r seren a lluniau o Siôn Corn a'i anrhegion. Ond fy ffefrynau i yw'r cardiau sy'n dangos golau cynnes o ffenestri tai a choed bythwyrdd yng nghanol yr eira gwyn. Rwyf yn dyheu am gael Nadolig gwyn - rhywbeth nad sydd wedi digwydd i mi hyd yn hyn. Gobeithio y cawn eira eleni. Byddai hynny yn cwblhau naws y Nadolig i mi.

Siwan Geraint.

Ar noson cyn y Nadolig y byddaf i a'm teulu yn mynd i wasanaeth Plygain, i gapel bach yn y Fro. Mae'r capel yn le cyfyng ac mae'r awyrgylch yn gyfeillgar iawn. Does dim golau na gwres yno felly byddwn ni'n mynd â digon o ddillad a chanhwyllau efo ni. Yn y Gwasanaeth byddwn yn cofio am enedigaeth yr Iesu a bydd gwahanol bobl yn canu neu chwarae offerynnau. Byddwn yn aros yno tan bore 'Dolig ac wedi dymuno Nadolig hapus i bawb byddaf yn mynd i ngwely ac yn gobeithio deffro i wynebu llond gwlad o eira.

Yn y bore y peth cyntaf fyddaf yn ei wneud fydd mynd i 'stafell mam a dad i agor fy mhresanta'; wedyn trwy'r bore byddaf yn chwarae efo beth bynnag ges i, tra bod dad yn ei wely a mam yn brysur yn rhostio'r twrci. Mae pawb yn edrych ymlaen at ginio a phwdin Nadolig.

Ar ôl cinio bydd dad yn nôl ei ffon a byddwn ni gyd yn mynd o amgylch yr Eglwys Newydd a Llandaf - byddaf o hyd yn sylwi pa mor dawel ydi hi o gwmpas, rhyw un neu ddau arall hefyd yn mynd am dro. Mi fydd hi wedi tywyllu erbyn inni gyrraedd adre a byddwn yn cynnau'r canhwyllau a bwyta da-da a chnau.

Dyna fy Nadolig i, un braf inni fel teulu, gobeithio bydd pawb ohonoch yn mwynhau hefyd.

Elen Wyn Griffiths

# URDD AR Y MUR IONAWR 11-23

Pan fyddwch yn ymweld â 'Noa' yn Y Sherman yn ystod mis Ionawr, cofiwch alw yn yr oriel newydd i gael golwg ar yr arddangosfa yno.

Arddangosfa arbennig fydd hon ar eich cyfer chi. Fe gyfrannodd nifer o arlunwyr proffesiynol ac amatur enghreifftiau o'u gwaith ar gyfer yr arddangosfa ac fe fydd y gwaith i gyd ar werth i'r cyhoedd, gyda'r arian yn mynd i gronfa Eisteddfod yr Urdd Caerdydd 1985.

## RECORDIAU AT Y NADOLIG

Dyma ddiwedd y flwyddyn yn dynesu unwaith eto, ac mae'r Dinesydd wedi dethol ychydig o recordiau pop o blith cynnyrch y flwyddyn, er mwyn i chi ystyried eu prynu dros y Nadolig. Daeth nifer o recordiau safanol i law, yn enwedig rhai gan grwpiau llai poblogaidd megis FICER, ERYR WEN, a ROCYN, ac yn gyffredinol ni ellir gwadu iddi fod yn flwyddyn dda o ran cynnal safon. Fodd bynnag, o fewn y byd roc ni chredaf inni gael dim gwirioneddol aroesol i'n synnu eleni - y byd gwerin, yn hytrach, sy'n dwyn y wobr am flaengarwch, diolch i'r HWNTWS â'u gem o record o'r un enw. Arni ceir cyfuniad lliwgar o athrylith offerynnol grymus a thynerwch cynnil ('Bachgen Bach o Dincer'), gan greu harddwch nas cafwyd mewn record Gymraeg ers dyddiau cynnar Meic Stevens. Dyma

i tud 7 - Colofn 3

## GOBEITHION AM '83



Gofynnodd Y DINESYDD i rai o'n darllenwyr am eu gobeithion am y flwyddyn newydd. Dyma'r atebion a ddaeth i law :

ANN SAER, gwraig tŷ, mam ac athrawes ysgol

Fy ngobaith yw cael cadw fy iechyd. Bod yn wraig well i'm gŵr. Bod yn fam ffeindiach i'm plant. Bod yn ffrind ffyddlonach i'm cyfeillion. Gweld pob un o blant dosbarth 5 Ysgol Gyfun Glantaf yn pasio eu arholiadau allanol. Cael mwy o amser i ddarllen, gwylio a gwrando, yn enwedig ar bethau plant. Cyrraedd Môn i grwydro'r hen eglwysi a chloncan â hen ffrindiau. Tyfu clemacis dros yr ardd gefn. Gweld gwledydd y byd yn dod at ei gilydd i ymwrthod ag arfau niwclear. Cyrraedd y capel yn amlach. Rhoi cwlwm ar fy nhafod yn amlach. O! Ie! A phrynu wats!

GARETH WYN JONES, myfyriwr

Mae'n eithaf posibl mai hon yw'r genhedlaeth olaf o blant i gael eu magu mewn cymdeithas naturiol Gymraeg. Mor drist yw clywed geiriau fel hyn. Fel llawer o bobl eraill, bûm yn dysgu Cymraeg am o leiaf ddeng mlynedd. Petawn wedi cael addysg ddwyieithog pan oeddwn yn iau, byddai'r dasg wedi bod yn haws o lawer. Felly, fy ngobaith i am 1983 yw gweld defnydd helaethach o'r iaith Gymraeg, yn enwedig ym myd addysg. Credaf y dylai pob plentyn mewn ysgolion cynradd yn yr ardaloedd Cymraeg dderbyn ei holl addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid sicrhau bod plant newydd-ddyfodiaid di-Gymraeg yn cael eu trwytho yn yr iaith yn yr oedran cynharaf posibl. Yn yr ardaloedd llai Cymraeg, megis y Brifddinas, dylai fod rhwydwaith gyflawn o Ysgolion Cymraeg a dylai fod cyrsiau Wlpan ar gyfer plant rhwng 3 a 7 yn yr ysgolion eraill.

DILWYN YOUNG JONES, actor ac wyneb cyfarwydd ar HTV


Gan fy mod newydd groesi'r bont o'm hugeiniau, arwyddair y flwyddyn nesaf i mi yw CALLIA! Rhaid imi addunedu fy mod yn cadw f'addunedau am ddeuddeg mis, nid am ddeuddeg awr. Wel! Mae hynny'n swnio'n syniad call, ta beth!

MARION EAMES, nofelydd

Rwyf am weld miloedd o aelodau newydd i CND. A Wayne Williams yn cael ei swydd yn ôl wedi'r cyfan, a phawb sy' wedi elwa'n ariannol ar ddyfodiad S4C yn rhoi cefnogaeth ymarferol iddo ef a'i deulu.

DIANA BIANCHI, gwraig tŷ, mam ac athrawes feithrin

I ferched Greenham Common, rwyf am weld pob llwyddiant yn eu brwydr dros heddwch a diogelwch y byd. A hoffwn weld mwy o ddeallusrwydd rhwng pwerau grymus America a Rwsia, gan obeithio y cawn rhyw fath o gytundeb rhyngddynt i waredu'r bygythiad cryf o ryfel niwclear, sydd llawer yn fwy nawr nag oedd 10 mlynedd yn ôl. Yn y dyfodol agos fe fydd yn rhaid i America newid ei hagwedd tuag at Rwsia. Ar ôl bod yno eleni, rwy'n credu bod y bobl gyffredin yn ddidwyll yn dymuno hyn. Maen nhw'n credu fod America yn bygwth heddwch y byd - nid ydynt am weld colli rhagor o'u pobl mewn rhyfel. Maen nhw eisioes wedi colli cynifer y ganrif hon. Mewn mynwent yn Leningrad roedd 600,000 ohonynt.
Gobeithio hefyd y cawn weld diwedd ar erchyllterau yn erbyn plant a menywod yn El Salvador - gwladwriaeth â gefnogir gan America a Phrydain. Mewn un gair, rwy'n gobeithio am heddwch.



o tud 6 — colofn 3

record a ddylai harddu casgliadau recordiau dilynwyr Jac a Wil a Crys ill dau!

O'r byd roc daeth offrwm derbyniol iawn wrth DEREC BROWN A'R RACARACWYR gyda'u record sengl, 'Bois y Band'. Mae yna aeddfedrwydd yn arddull gadarn y Racaracwyr - roc-a-rôl di-ffwdan a diymhongar. Prynwch hon er mwyn gweld mamgu a tadcu yn dawnsio o gwmpas y goeden Nadolig (ond rhowch wydriad o sieri iddynt yn gyntaf).

Daw'r grŵp roc CRYS yn agos at lwyddiant Derec Brown gyda'u record hir 'Tymor yr Heliwr', ond mae tipyn o ffug-rwysg a mawredd yn perthyn i'r grŵp hyn - ceir efelychu ar stimiau cyffelyb o du draw'r ffin. Trueni am hyn, gan ei fod yn tynnu oddi wrth ungrededd y grŵp; ond mae ganddynt gyfansoddiadau trefnus, bachog, a chofiadwy (er bod eu caneuon yn frith o fenthyciadau Seisnig), ac i bob pwrpas mae'r record yn swnio'n broffesiynol a da. Efallai fod CRYS yn rhy drwm a swnllyd i'r sawl yn eich plith sydd wedi croesi'ch deunaw oed - rhowch wrandawiad felly ar 'Edrych Drwy y Camerau' gan YR AIL SYMUDIAD. Mae naws cwbl Gymreig arnynt, a bodlonir y gwrandawr â chaneuon diniwed, ond heb fod yn anghofiadwy. Ni cheir offerynnu cywrain iawn gan Y SYMUDIAD, ond nid yw hyn o bwys o ystyried fod apêl y grŵp yn gorwedd yn eu symlrwydd a'u ffresni.


Hyfryd iawn yw'r bedair record hon, record yr HWNTWS yw fy ffefryn i, gan ei bod hi mor eang ei hapêl.

### Digwyddiadau'r byd roc yng Nghaerdydd

Mae GOFOD, grŵp newydd Dafydd Pierce, yn chwarae cerddoriaeth offerynnol yng Nghlwb y Casablanca bob nos Sul.

Mae yna si ar led fod grwpiau Cymraeg am gael chwarae yn nhafarn y Dowlais, ger Stryd Bute. Manylion pellach i'w cael ar dafod leferydd - clustfeiniwch yn yr Halfway - ac hefyd ar raglen roc DEREC BROWN ar CBC (bob nos tan rhwng 9 a 10).

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 28



Y tro hwn mae amryw o'r cliwiau yn ymwneud â'r Nadolig. Yn yr achosion hyn ni roddir cliw ond y gair Nadolig, a nifer y llythrennau mewn cromfachau. Rhoddir rhestr o'r atebion hyn isod. Nid oes unrhyw drefn arnynt. Eich camp chi fydd eu gosod yn y lleoedd iawn yn y fframwaith. Rhoddir y gweddill o'r cliwiau yn y dull arferol.

## Ar Draws

1. Nadolig (1,10)
7. Y bore (2)
8. 31 ar draws yn Gymraeg (2)
10. Nadolig (6)
13. Nadolig (6)
16. Help i'r gyrrwr (2)
17. Diben marc (3)
19. Gair o gytundeb (2)
20. Mathau o ennaint at bob clwy (5)
22. Digwyddiad rhyfeddol ymhlith hynafgwyr Thesalonica (5)
24. Nadolig (5)
27. Nadolig (4)
29. Arddangosfa sy'n rhoi lle i eos newydd (4)
31. Oed Crist yn Lladin (2)
32. Nadolig (7)
35. Un sy'n eistedd ar fainc (2)
38 a 40. Nadolig (4,4)
43. Gair gwneud (4)
46. Defnydd 24 ar draws (4)
48. Merch sy'n perthyn (mewn ffordd) i 26 i lawr (3)
50. Medde (3)
53. Nadolig (7)
56. Nadolig (7)
59. "Gan ---- ar ei stormydd oll" (4)
60. "Tlws eu --, liaws tawel" (2)
61. Geiryn hanfodol i bob dyn (2)
62. Rhywbeth amgen a geir o ddaear alltud (4)
63. Bannod o flaen llafariad (2)
64. Cyfran isa'r anhrefn(4)
65. Asbri yn cyffroi'r un fwyn (4)
66. Murmur ffansiol (2)

## I Lawr:

1. Yn y lle hwn (3)
2. Y maent yn dod ynghyd i amcan (3)
3. Rhoddir graddau -- anrhydedd gan y Brifysgol(2)
4. "Lliaws o -- nefol" (2)
5. Nadolig (3)
6. Cer am gyfran o ffisig(3)
7. Lluddias (4)
9. Deuir o hyd i gerbydau(4)
10. Mae 'na ser i'w cael yn y grefft hon (4,4)
11. Arf y llinynnydd wedi ei falu yn y baw (3)
12. Cysgod cenhedlaeth (2)
14. Wel! Dyna broffid amheus! (3)
15. Nadolig (8)
17. "Rhoi angen un rhwng y ---" (3)
18. Bachan bidir (3)
21. Dyma air gwyllt am dderyn dof (3)
23. Yw (3)
24. Aderyn a welir ar lwyn yn y Rhondda (3)
25. "Gloria in excelsis ---" (3)
26. Bachgen sy'n perthyn i'r ferch yn 48 ar draws(3)
28. Llafur y cynhaeaf yn Nyfed (2)
30. P.S. Cymraeg (2)
33. Rhinweddol (2)
34. Bannod Ysbaenwr yn troi i fyny mewn llecyn meddal (2)
36. Daear na n-Og (3)
37. Cert yn troi ac yn colli cant yn y dreflan(3)
38. Nadolig (5)
39. Arswydo rhag (4)
41. Nadolig (4)
42. Amryw o foron i ferwi(5)
44. Lleisiwr (5)
45. Nadolig (5)
47. Bwlch (4)
49. Tipyn o Roeg (4)
51. Un o'r llestri gwannaf(4)
52. Mangre'r ugain mil (4)
54. Rhewllyd (3)
55. Nadolig (3)
57. Rhan o afon Llundain yng Nghaerdydd (3)
58. Cwrs cystadleuol (3)

Yn ymwneud â'r Nadolig:

Sion Corn; oren; celyn; Bethlehem; doethion; pwdin; preseb; lantern; stabal; aur; thus; Nadolig; y bugeiliaid; seren; myrr

DATRYSIAD RHIF 27

Ar Draws: 1. ELLYLL; 3. LLYNCU CAMEL; 10.(o) LAW FY (Mhriod); 11.AMRYFUSEDD; 12. DARGANFYDDIADAU: 14. AFLAFAR; 15. NODDASOM; 17. SIRIOLA; 19. BWLAETS; 20. HAWDDFYD AC ADFYD; 23. AR Y TARGED; 24. ARWYR; 25. BLASUSFWYD; 26. ADIO

I Lawr: 1. ERLIDIAIST; 2. Y CHWARELWR; 4. YMARFER; 5. CERYDDON; 6. CYFRANDDALIADAU; 7. MISSA (Solemnis); 8. (Pan) LADDO (dyn ei frawd); 9. CYMANFAOEDD CANU; 13. YMOSOD ARNO; 16. SLEIFIWYD; 18. ADDYSGAF; 19. BRAWD FY (mam yw f' ewythr); 21. A DYNA (sain telynau glân); 22. SAIB

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD 561788**

# Y SILFF LYFRAU

Menna Elfyn, TRO'R HAUL ARNO, Gwasg Gomer, £1.75

Alan Llwyd, YN NYDD YR ANGHENFIL, Cyhoeddiadau Barddas, £2.00.

Er mai cerddi am gaethiwed a geir yn Tro'r Haul Arno nid cerddi ydynt sy n dyheu am ddihangfa seml Fel y dengys y gerdd Tro'r Haul Arno, sy'n rhoi ei theitl i'r gyfrol, nid unrhyw ateb rhwydd fel taro swits all ddileu y tywyllwch mewnol sy'n cael ei gofnodi mewn cynifer o'r cerddi yma. Portreadu amodau'r gaethiwed a wneir yma a neges groyw y gyfrol yw mai trwy newid yr amodau, a thrwy hynny'n unig, y gellir ymddihatru oddi wrth hualau'r rhagfarnau a'r dihitrwydd sy'n caethiwo unigolion a charfanau yn ein cymdeithas.

Mae hon yn gyfrol wirioneddol werthfawr ag ynddi nifer o gerddi nodedig megis 'A' Wing, Abertawe 5 Leeds 1 'A' Wing O, Cân Rhieni, Byw, Benywod, Byw.....gellid parhau i restru pe mynnid. Mae rhai o'r cerddi gorau yn atgoffa rhywun o ing a sensitifrwydd gwaith Sylvia Plath, ac mae'r math yna o ganu crisial yn brin iawn yng Nghymru heddiw.

Cyfrol arall a ddylai dderbyn croeso brwd yw Yn Nydd Yr Anghenfil gan Alan Llwyd. Dyma gymhares deilwng i'w gyfrol wefreiddiol Cerddi'r Cyfannu er mai gwahanol iawn yw'r themâu yn Yn Nydd yr Anghenfil.

Ni allaf gofio i un o gyfrolau Alan Llwyd, o'r March Hud ymlaen, gael derbyniad llugoer nac anghroesawus, ond yn ddi-os yn y ddwy ddiweddaraf y cyrhaeddodd ei lawn dwf fel llenor. A'r llenor hwnnw yn llenor mawr, yn feistr llwyr ar frodwaith ei fynegiant ac ar angerdd ei weledigaeth. I mi mae nifer o'r cerddi yn ail adran y gyfrol, sef y Cerddi Eraill, yn iasol o rymus ac yn debyg o aros yng nghof y darllenwr weddill ei oes.

Siôn Eirian

●●●●●●●●

Norah Isaac (gol.) STORIAU AWR HAMDDEN I BLANT : 2 Christopher Davies, £2.50

Eluned Jones, Y CEFYLL CUDD Christopher Davies, £2.50

Yn STORIAU AWR HAMDDEN I BLANT : 2 ceir ugain stori o waith cyn-fyfyrwyr Coleg y Drindod, Caerfyrddin, ynghyd â Rhagair, ar ffurf llythyr, gan Barry John. A chymryd am funud y bydd plant yn dal i ddarllen y gyfrol er gwaethaf sylwadau nawddoglyd Barry John, pa fath o wledd sydd o'u blaen wedyn? Fe ddywedwn i fod wyth o'r ugain stori yn werth eu darllen. Gan Hilary Jones y ceir y stori orau, 'Stori Gwyn'. Gŵyr yr awdures hon sut i dreiddio i fyd y plentyn, peth digon prin yn t gyfrol; ac mae gwir deimlad i'w synhwyro yma. Mae 'Diwrnod i'w Gofio' gan Ian Lloyd Hughes bron â bod yn yr un dosbarth. Hanes plentyn unig a gawn yn y stori hon eto ond mae diwedd y stori yn siomedig. Gan Mari Wyn Evans, hithau, y ceir stori sy'n gweld y byd o safbwynt plentyn - y tro hwn wrth i ferch fach orfod symud o'i chynefin a mynychu ysgol ddieithr. Yma eto, fodd bynnag, mae'r diweddglo braidd yn wan. A'r storiau eraill. Mae Ann Britton Evans wedi llunio stori antur gredadwy dan y teitl 'Y Botwn Coch'. Y Wenallt yng Nghaerdydd yw canolbwynt y stori. Ceir stori ddifyr gan Jon Meirion Jones hefyd, 'Ysbryd y Fynwent', ond nid wyf yn sicr mai stori ar gyfer plant yw hon mewn gwirionedd. Mae 'Bes o'r Rhondda Fach' gan John Owen yn stori ysbryd effeithiol, yn arbennig yn y diwedd: ac er bod 'Bill' gan Meredydd Owen yn fwy o ddigwyddiad na stori mae'r cefndir anghyffredin yn ddiddorol. Ac i gloi gallaf gymeradwyo stori Gerallt Rhun, 'Idris y Cawr', math ar stori werin afieithus. Awn mor bell ag argymell unrhyw blentyn i beidio â darllen Y CEFFYL CUDD, nid yn gymaint am fod fformiwla'r nofel hon yn bur ystrydebol - plant ar eu gwyliau yn datrys dirgelwch -, ond am fod yr awdures yn ceisio gwthio gwersi hanes i lawr corn gyddfau'r darllenwyr byth a beunydd ac, yn waeth na hynny, yn gwthio ei syniadau gwleidyddol adweithiol arnynt hefyd. Darllenwn, er enghraifft, ei bod hi'n hollbwysig i'n byddin 'ni' aros yng Ngogledd Iwerddon er mwyn cadw'r Comiwnyddion allan. Wrth gymharu glaniad y Ffrancod yn Sir Benfro yn y ddeunawfed ganrif â dyfodiad pobl o Asia i fyw ym Mhrydain, dywed un o'r plant,

'....pan oedd milwyr yn glanio...'roeddech chi'n gwybod pwy oedd y gelyn ....ond....pan fydd gwladychwyr fel y Pakistanis, neu drigolion Gorllewin India yn dod i mewn, yna mae ein ffordd o fyw yn newid, a ninnau braidd yn sylweddoli'.

Os ydych am wenwyno meddyliau eich plant, prynwch y gyfrol hon iddynt fel anrheg Nadolig.

Philip Wyn Jones.

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau Yswiriant Bywyd Pensiynau*

AR Y RADIO

Bydd y garol newydd a gyhoeddir am y tro cyntaf yn ein hatodiad yn cael ei chanu yn gyhoeddus am y tro cyntaf ar un o raglenni Cymraeg C.B.C. dros gyfnod y Nadolig. Gwrandewch ar C.B.C. am fanylion pellach.

Yn gynnar yn 1983 bydd Radio Cymru yn cynnal cystadleuaeth rhwng y gwahanol bapurau bro. Mae'r Dinesydd eisioes wedi recordio rhaglen hanner awr o'r enw 'Dewch am Drip', ac fe'i darlledir yn ystod mis Ionawr, er na wyddys y dyddiad eto. Gwrandewch ar Radio Cymru am fanylion pellach.

Pytiau

Gwyddoniaeth a Cherddoriaeth yn mynd law yn llaw yn nyweddiad Sharon Canning a Rod Lloyd. Sharon yn athrawes cerdd Ysgol Cwm Rhymni a Rod yn athro gwyddoniaeth yn Rhydfelen.

******

Syndod i Ifor Rees Rhiwbeina wrth feirniadu yn Eisteddfod Caerfyrddin yn ddiweddar oedd canfod fod y Parch Glyndwr Richards a enillodd y Gadair - gweinidog wedi ymddeol ac yn perthyn i'r Methodistiaid, hefyd yn byw yn Rhiwbeina. Mae'r Parch Glyndwr Richards wedi ennill pump cadair yn ddiweddar.

******

AR OSOD

Bwthyn bach gwyn ynghanol y wlad i'w osod yn ystod yr haf, yn agos i Gastell Newydd Emlyn a glannau môr Ceredigion. Lle i 5 neu 6 i gysgu. Pris £30 yr wythnos; £35 yn ystod mis Awst. Rhif ffôn: Caerdydd 483603.

******

PRIFYSGOL CYMRU

Yn eisiau :

CYFIEITHYDD AR Y PRYD

i fod yn gyfrifol am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a ddarperir mewn cyfarfodydd pwyllgorau'r Brifysgol - y Llys, Urdd y Gradd-edigion, y Bwrdd Dysgu drwy'r Gymraeg a Phwyllgor Academaidd y Bwrdd.

Fel arfer cynhelir 6 chyfarfod bob blwyddyn, ar wahanol brydiau yn ystod y sesiwn academaidd, yn y colegau yn Abertawe, Aberystwyth Bangor, Caerdydd a Llanbed.

Telir ffi, ynghyd â lwfans cynhaliaeth a chostau teithio.

Manylion pellach oddi wrth y Cofrestrydd, Cofrestrfa Prifysgol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NS.

Dyddiad cau : 10 Rhagfyr, 1982

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Anaml y gall rhywun ymffrostio iddo gwrdd â neb a gafodd fyw am ganrif a mwy. Fel mae'n digwydd, mi gefais i'r fraint honno ddwywaith, canys dathlodd Ifor Davies, Penmaenmawr, yr hanesydd lleol diwyd, ei ganfed penblwydd yn ddiweddar, a hynny a barodd imi gofio am yr hynafgwr arall y cefais ychydig, rhy ychydig, o'i gwmni. Edward Harker (Isnant) ydoedd hwnnw. Fe'i ganed yn Nant-bwlch-yr-heyrn ger Llanrwst ym 1866 a bu farw yn 102 mlwydd oed ym 1969. Trebor Mai y teiliwr a wnaeth ei siwt gyntaf un, ond go brin mai hynny a wnaeth Isnant yn englynwr mor grefftus. Ceir pedwar pennill o'i eiddo yn 'Y Flodeugerdd Englynion', ac er nad yw'r un a ddyfynnaf yn awr mor hysbys â'r rheini, mae'n sicr o fod yn unigryw. Nid pob englynwr, ysywaeth, sy'n gallu gweithio englyn iddo'i hun pan yw'n cyrraedd ei gant.

ISNANT YN GANT

Heno myfi yw'r hynaf - yn y fro,
Am y fraint diolchaf;
Yn raddol mi gyrhaeddaf
Gant ac un os gwynt a gaf.

Isnant

Gan ei fod yn prysur dynnu at y Nadolig rwy'n credu mai priodol fyddai codi'r cywydd hwn ganddo i'r golofn y tro hwn.


Y PRESEB

O! Mor fyr fu Mair y Fam
A'i denol Febyn dinam
O groeso; onid gresyn
Dwyn y buraf fwynaf Un
Isod ar y llaesod' llaith
I orffwys, a'i Mab perffaith?
Pa reswm dodi preseb
A'i fur noeth i Mair o neb
Yn ei chur, ac yn ei chôl
Y difai Febyn dwyfol?
I'r Iesu rhoed llawr asyn
Ar ei daith i garu dyn;
Hwn obry yng nghafn ebran
Oer a llwm, nid llety'r llan;
Aer y nef yn nyfnder nos,
Y Duwddyn heb le diddos.
Er ei ddod i le mor ddu
Ac oer, mae'n dal i garu.
O! brysiwn at ei breseb,
Oedi'n ôl na foed i neb.
Caed doethion yn cyd-deithio
O gariad at ei grud o;

Engyl sydd yng ngolau sêr
Yn hysbys gynnal gosber
O weled Duw o blaid dyn
Isod yn llety'r asyn,
A hyfwyn y cân hefyd
Glychau gras o gylch ei grud.

Hwylio hynt i Fethlehem
I'w addoli a ddylem,
Ac offrwm anrheg effro
Heddiw o fawl iddo Fo
Am a wnaed, ac aed ein côl
I'r Iesu'n grud arhosol.


Isnant





Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn CHWEFROR at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753625) erbyn Ionawr 22ain, 1983

# O'R SEDD GEFN



Ffilm o Loegr yw Who Dares Wins (Euan Lloyd). Yno yn bennaf y'i lleolir ac yno y cafodd ei chynhyrchu. Mae iddi gefndir Seisnig gyda'r mwyafrif helaeth o'r actorion yn Saeson ac mae'r stori hithau yn ymwneud â thestun sydd bellach wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y wlad honno, sef, yr S.A.S.

Mae munudau agoriadol y ffilm yn canolbwyntio ar griw o filwyr wrthi'n ymarfer yn ddwys. Ar ôl gwylio pob math o gampau aerobataidd dyma'r ffilm yn mynd â ni (am o leia hanner munud) draw i Gymru fach ac i ganol Eryri. Yno cawn wylio rhagor o gampau acrobataidd cyn ail-gydio ym mhrif linyn y stori mewn golygfa sy'n dangos arwr y ffilm, y Capten Peter Skellen (Lewis Collins) yn cael ei ddiarddel o'i gatrawd am resymau sydd imi beth bynnag yn dal yn ddigon tenau ac amhendant. Yna, dangosir i ni griw arall - criw o derfysgwyr gwrth-niwcliar y tro hwn - yn cael eu hyfforddi i ymladd ac i drin arfau. Dyma gefnlen y ffilm felly a dyma gyflwyno'r ddwy ochr yn dwt - yr S.A.S. ar y naill law a'r terfysgwyr gwrth-niwcliar ar y llall, arfau v arfau, terfysg v terfysg a hwn yw eirioni mwya'r ffilm.

Ar ôl y rhagymadrodd hwn dyma'r stori'n cychwyn o ddifri ar ei thaith bellach gan ddangos sut mae'r Capten Skellen yn mynd ati i ymuno â'r terfysgwyr trwy hudo a thwyllo'u harweinydd, Frankie Leith (Judy Davis). Wedi iddo wneud hyn daw i glywed cyfrinachau a strategaeth y mudiad a chymer ran yn eu hymgyrch i oresgyn un o adeiladau llysgenhadaeth America yn Llundain (ydych chi'n cofio'r gwarchae yn llysgenhadaeth Iran ddwy flynedd yn ôl!) lle mae nifer o bwysigion a gwleidyddion allweddol wedi ymgynnull.

Stori fenthyg yw'r ffilm i ryw raddau. Wel mae o leia sgerbwd y stori wedi'i fenthyca ta beth, ac ambell waith digon tenau yw'r cig sydd am yr esgyrn, ond er hyn mae'r syniad canolog yn soffistigedig ei wala a cheir digon o symud a drama o ddechrau'r ffilm hyd y diwedd. Cwbl gredadwy yw gorchestion yr S.A.S. ac ar adegau maen nhw'n ymylu ar fod yn ddifyr. Dylid canmol Lloyd am hyn ac am lwyddo fel y gwnaeth e i gynnal y tyndra a'r naws trwy gydol y gwarchae. Sut bynnag, er dweud hynny, ni ddylid anghofio'r ddau brif actor chwaith, sef, Judy Davis a Lewis Collins. Mae perfformiad y ddau yn eitha safonol, yn arbennig felly berfformiad Miss Davis. Nid yw'n haeddu Oscar, mae'n wir, ond serch hynny, llwydda i godi rhan sydd fel arall yn ystrydebol ac yn arwynebol iawn.

Os mai tenau yw'r cig sydd ar y sgerbwd weithiau, pryd arall ceir cymaint o fraster a cholur nes gwneud y ffilm yn gwbl anghredadwy gyda Lloyd yn mynd dros ben llestri. Mae hyn yn arbennig o wir am ei benderfyniad i bortreadu'r garfan wrth-niwcliar fel bagad o derfysgwyr. Peth naiff ac annheg ar y naw oedd defnyddio'r grŵp yma yn y lle cynta, ond os oedd gwir raid eu cynnwys, dylai fod wedi gwneud ymdrech i ddeall eu safbwynt yn well. Ochr yn ochr â'i bortread o'r SAS gyda'u slicrwydd a'u hyder hunangyfiawn dyma Lloyd yn mynd ati i wawdio'r People's Lobby - neu CND - yn ddidrugaredd. Maen nhw ar chwâl yn y ffilm ac yn annhrefnus. Maen nhw'n eithafol ac yn ddidostur a nhw yw'r rhai drwg o'r dechrau hyd y diwedd. Mae ei bortread o broblem gyfoes yn rhy syml, yn rhy arwynebol ac yn rhy amlwg o lawer. Nid digon yw dweud nad yw'r ffilm yn ddiduedd - mae hi'n wirioneddol ragfarnllyd ac yn ymylu ar fod yn bropaganda noeth ar adegau. Propaganda hynny yw yn erbyn CND. Ffilm gymedrol yn unig yw Who Dares Wins a siom imi oedd gweld un o'r ychydig ffilmiau i ddod o Loegr eleni yn ymdrin â thestun mor adweithiol a diddychymyg. Mewn cyfnod o gyni aruthrol yn y diwydiant ffilmiau Seisnig, mae'n arwyddocaol fod Euan Lloyd wedi llwyddo i gael cefnogaeth ariannol i'r ffilm hon gan wŷr busnes Lloegr ac eraill heb fawr o drafferth. Gyda llaw, ei ffilm nesa yw Battle of the South Atlantic.

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

PARTI NOS YSTWYLL Y DINESYDD
NOS SADWRN IONAWR 8 1983
Neuadd Goffa RHIWBEINA
8 o'r gloch
£2.00
CAWL GWIN A CHÂN



HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD
561788

## YR APÊL

Dipyn yn siomedig oedd ymateb ein darllenwyr yn y mis diwethaf i'r Apêl a wnaed yn y Dinesydd yn rhifynnau Hydref a Thachwedd. Ni ddaeth ond dau Archeb Banc i law'r Trysorydd yn ystod Tachwedd. Er mor dderbyniol yw rhoddion, os yw'r Dinesydd am barhau rhaid sicrhau symiau rheolaidd bob blwyddyn, yn ychwanegol at y Grant ac arian hysbysebion. Unwaith eto erfyniwn arnoch i lenwi'r ffurflen Archeb Banc a'i anfon at y Trysorydd. Mae incwm y Dinesydd o'r ffynhonnell hwn yn awr yn agos i £600 y flwyddyn ac y mae angen o leiaf £1,000 y flwyddyn i lenwi'r bwlch rhwng ein costau a'n hincwm cyson. Gofynnwn hefyd i'r rhai sy'n cyfrannu yn barod drwy'r modd hwn ychwanegu at eu symiau presennol. Yr un pryd rhaid diolch i bob un yn gynnes a gyfrannodd yn ystod yr wythnosau diwethaf (o Hydref 26 hyd Dachwedd 25), a dymuna'r Trysorydd gydnabod gyfraniadau oddi wrth yr isod sydd yn gwneud cyfanswm o £152.

Archebion Banc: Mr. G.H. Smith; Mr. a Mrs. T.Wyndham Davies.
Unigolion: Mr. Roger Bailey; Mr. a Mrs. G.Huws; Miss Ruth Parry, Miss Dorothy Williams; Mr. a Mrs. Eirwyn Evans; Mrs. Mair Elvet Thomas; Mr. a Mrs. Iwan Jones; Mr. a Mrs. Geraint Stanley Jones; Mr. a Mrs. Havard Gregory; Mrs. Mannon Griffiths; Mr. T.O.Davies; Miss Nans Jones; Mrs. Judith Pritchard; Mr. a Mrs. W.John Jones; Y Barnwr a Mrs. D. Watcyn Powell; Mr. a Mrs. Aneirin Lewis; Sara a Siân Davies (Caerffili) a Bethan Lewis (Caerffili)
Mr. a Mrs. Rob Sanger; Mrs. Margaret Calvert.
Cymdeithasau: Cymdeithas y Dysgwyr, Tŷ'r Cymry

ARCHEB BANC

At y Rheolwr.....................(Banc)

.........................(Cyfeiriad)

...................................

Dymunaf i chi dalu i Fanc Masnachol Cymru, 114-116 Heol y Santes Fair, Caerdydd i gyfrif PWYLLGOR RHEOLI Y DINESYDD, rhif cyfrif 40985012, ar unwaith, ac ar y dydd cyntaf o fis.......... bob blwyddyn wedi hynny oni ddiddymir yr archeb gennyf mewn ysgrifen y swm o ............... (mewn geiriau) £......(mewn ffigurau).

Arwyddwyd ......................

Cyfeiriad ......................

...................................

Rhif ac enw'r Cyfrif............

...................................

Dyddiad ................

Dylid anfon y ffurflen uchod at: Mr. Emrys Jarman, Trysorydd Y Dinesydd, 198 Hill Rise, Llanedeyrn yn hytrach na'i anfon at eich Banc.






Argraffwyd gan Fingerprints(TU), Caerdydd.